

Trosolwg

Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

Mae'r ddogfen hon ar gyfer pobl sy'n ystyried cofrestru eu plaid, neu ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig sydd am wybod mwy am enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Cynnwys:

Cyflwyniad i farciau adnabod

Sut caiff y marciau adnabod eu

Lle caiff marciau adnabod eu cofnodi

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â ni:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: publications@electoralcommission.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio arian a gwariant gwleidyddol. Rydym yn ymrwymedig i roi dealltwriaeth glir i'r rheini a reoleiddiwn o'u rhwymedigaethau rheoliadol drwy ein dogfennau canllaw a'n gwasanaeth cynghori.

Lle bynnag y bo'n bosibl, rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau yn rhagweithiol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn rheoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoliadol, gallwch chi neu eich sefydliad fod yn destun sancsiynau sifil neu droseddol. [Dysgwch fwy am ein dull o orfodi.](#)

2

Trosolwg o enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau pleidiau

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

Y rheolau ar pa enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau gall pleidiau gofresu i'w defnyddio ar bapurau pleidleisio. Gelwir y rhain yn 'farciau adnabod' plaid.

Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â'r canlynol:

- beth yw marciau adnabod plaid
- sut y bydd enwau neu ddisgrifiadau plaid yn ymddangos ar bapurau pleidleisio mewn etholiadau gwahanol
- sut rydym yn asesu marciau adnabod
- materion i'w hystyried wrth ddewis arwyddlun
- diogelu enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

Dogfennau cysylltiedig:

- [Cyflwyniad i gofrestru plaid wleidyddol](#)
- [Trosolwg o gynnal manylion pleidiau](#)
- [Proses ar gyfer cofrestru plaid wleidyddol](#)
- [CPE Ar-lein - Dechrau arni](#)
- [Cyflwyniad i fod yn drysorydd plaid](#)

Mae ein holl ganllawiau ar [ein gwefan](#).

Crynodeb

Mae enw plaid, disgrifiadau ac arwyddluniau (marciau adnabod) pleidiau yn chwarae rôl bwysig yn y broses etholiadol.

Os yw plaid yn dymuno i'w marciau adnabod ymddangos ar bapurau pleidleisio mewn etholiad, mae'n rhaid iddynt fod wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol.

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae profion statudol y mae'n rhaid i farciau adnabod pleidiau eu bodloni er mwyn cofrestru.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r profion hyn a sut y gellir eu bodloni.

Cyflwyniad

Mae marciau adnabod plaid (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau plaid) yn chwarae rôl bwysig yn y broses etholiadol. Eu prif rôl yw helpu pleidleiswyr i ddod o hyd i blaid neu ymgeisydd ar bapurau pleidleisio'r etholiad.

Os yw plaid yn dymuno i'w marciau adnabod ymddangos ar bapurau pleidleisio, mae'n rhaid iddi wneud cais a chael eu cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn). Mae proses gwneud cais ar gyfer cofrestru plaid a'i marciau adnabod gyda ni. Mae'r canllawiau hyn yn esbonio'r profion statudol mewn perthynas â marciau adnabod.

Mae'r rheolau ar gyfer pob etholiad yn nodi pa farciau adnabod all ymddangos ar bapurau pleidleisio. Bwriedir i'r rheolau hyn ddarparu eglurder a thryloywder ar gyfer y pleidleisiwr. Yn bwysicaf oll, mae'n rhaid i bapurau pleidleisio fod yn glir ac yn hawdd i bleidleiswyr eu defnyddio. Dylech holi eich Swyddog Canlyniadau lleol i gadarnhau'r hyn y gallwch ac na allwch ei ddefnyddio ar gyfer pob etholiad.

Ar wefan [Dy Bleidlais Di](#), gallwch ddefnyddio eich cod post neu'r awdurdod lleol i chwilio am swyddfa etholiadau'r cyngor. Bydd y swyddfa etholiadau yn gallu rhoi enw'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiad y mae gennych ddiddordeb ynddo.

Beth yw marciau adnabod plaid?

Mae marciau adnabod plaid yn cynnwys ei enw, disgrifiadau ac arwyddluniau sydd wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn.

Enw plaid

Enw'r blaid yw enw cofrestredig y blaid sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiwn ac y gellid ei ddefnyddio ar bapurau pleidleisio. Mae'n rhaid i blaid gofrestredig gael enw. Nid ydym yn rheoleiddio sut mae plaid am frandio ei hun pan nad yw'r neges honno yn ymddangos ar bapurau pleidleisio.

Os na fydd plaid yn cofrestru gyda ni, ni fydd yn gallu defnyddio'r enw hwnnw ar bapurau pleidleisio i ymladd etholiad.

Os nad yw eich plaid wedi cofrestru gyda ni, gall ymgeisydd wneud cais i'r Swyddog Canlyniadau gael

- y gair 'Annibynnol' (neu 'Independent' yn Saesneg). Nesaf at eu henw ar y papur pleidleisio
- dim marc adnabod ar bapurau pleidleisio

Mae hyn yn ategol at unrhyw fanylion eraill sy'n ofynnol yn unol â'r rheolau etholiadol.

[Dysgwch fwy am ymgeiswyr ac asiantiaid.](#)

Disgrifiadau plaid

Mae disgrifiad o'r blaid yn farc adnabod dewisol y gallwch ei gofrestru gydag enw'r blaid. Rhaid i bleidleisiwr allu adnabod eich plaid o'r disgrifiad. Er enghraifft, byddai cynnwys enw'r blaid yn y disgrifiad yn un ffordd o wneud hyn. Os bydd y Comisiwn o'r farn na all pleidleisiwr adnabod y blaid o'r disgrifiad, nid yw'n ddisgrifiad o dan PPERA ac ni ellir ei gofrestru. Ni all disgrifiad fod yn union yr un fath ag enw'r blaid.

6

Gallwch gofrestru hyd at 12 o ddisgrifiadau gyda ni. Os na fyddwch yn cofrestru disgrifiad gall eich ymgeiswyr ddefnyddio enw cofrestredig eich plaid ar y papur pleidleisio ynghyd â'u henw neu arwyddlun.

Nid oes rhaid i chi gofrestru unrhyw negeseuon rydych yn bwriadu eu defnyddio yn eich ymgyrch gyda ni. Dim ond unrhyw ddisgrifiad rydych yn bwriadu ei ddefnyddio ar bapurau pleidleisio y mae angen i chi ei gofrestru.

Gall disgrifiad, yn ddibynnol ar yr etholiad penodol, gael ei ddefnyddio yn lle enw'r blaid, neu yn ogystal ag enw'r blaid ar y papur pleidleisio. Fe allwch hefyd gofrestru disgrifiadau ar y cyd gyda phlaid arall.

Disgrifiadau o bleidiau ar y cyd

Gall pleidiau cofrestredig hefyd ddewis rhannu disgrifiad a'i gofrestru ar y cyd. Gelwir hyn yn 'ddisgrifiad ar y cyd' a gall pob un o'r pleidiau sydd wedi'i gofrestru ei ddefnyddio ar bapurau pleidleisio. Mae hyn yn caniatau i bleidiau sefyll ymgeiswyr ar y cyd.

Ceir rheolau sy'n ymwneud â chofrestru disgrifiadau ar y cyd:

- dim ond un disgrifiad y gallwch ei rannu a'i gofrestru ar y cyd â phlaid neu bleidiau eraill
- rhaid i eiriad y disgrifiad ar y cyd nodi pob plaid sy'n gwneud cais er mwyn gallu bod yn ddisgrifiad ar y cyd
- nid yw disgrifiadau ar y cyd yn cyfrif tuag at y mwyafswm o 12 y gallwch gofrestru gyda ni

Pan fydd ymgeisydd yn defnyddio disgrifiad ar y cyd, bydd angen dewis pa un o arwyddluniau'r blaid y maent am ei ddefnyddio ar bapurau pleidleisio. Ni allwch gofrestru arwyddlun ar y cyd, ac yn hytrach gallwch ond ddefnyddio arwyddlun sydd wedi cofrestru i un o'r pleidiau sydd wedi cofrestru disgrifiad ar y cyd.

Os ydych yn ystyried cofrestru disgrifiad ar y cyd, cysylltwch â ni yn y lle cyntaf am gyngor.


Arwyddluniau plaid

Cynrychiolaeth weledol, ddewisol (neu logo) plaid yw arwyddlun.


Ni does angen i chi gofrestru arwyddlun os ydych ond yn mynd i'w ddefnyddio ar ddeunydd ymgyrchu ac nid ar bapurau pleidleisio.

Ochr yn ochr â marciau adnabod eraill, gall arwyddlun helpu pleidleiswyr i adnabod y blaid ar bapurau pleidleisio. Gall plaid gofrestru hyd at dri arwyddlun. Bydd eich plaid a'i hymgeiswyr yn gallu dewis defnyddio un o'ch arwyddluniau ar bapurau pleidleisio ym mhob etholiad.

Er enghraifft:



Mae'r enghraifft isod yn dangos papur pleidleisio lle y gellir defnyddio enw neu ddisgrifiad ac arwyddlun:



Sut y bydd enw neu ddisgrifiad plaid yn ymddangos ar bapurau pleidleisio mewn etholiadau gwahanol

Yn y rhan fwyaf o etholiadau yn y DU, gall ymgeisydd naill ai ddefnyddio enw cofrestredig neu ddisgrifiad cofrestredig y plaid i sefyll etholiad. Fodd bynnag, mewn etholiadau eraill, rhaid i blaid ddefnyddio ei henw cofrestredig, ond gall hefyd ddefnyddio'r disgrifiad cofrestredig ochr yn ochr ag ef.

Mewn etholiad rhanbarthol ar gyfer Senedd yr Alban, **rhaid** i blaid ddefnyddio ei henw cofrestredig a gall hefyd **ddewis** defnyddio disgrifiad cofrestredig ar bapurau pleidleisio.

Yn yr etholiad etholaeth ar gyfer Senedd yr Alban, dim ond enw cofrestredig ei blaid y gall ymgeisydd ei ddefnyddio i sefyll mewn etholaeth. Mewn etholiad etholaeth neu ranbarthol yn etholiad Senedd yr Alban gallant ychwanegu'r gair 'Scottish' cyn eu henw.

Mewn unrhyw etholiadau eraill ledled y DU, gall pleidiau ddefnyddio **naill ai'n** defnyddio enw'r plaid **neu'r** disgrifiad o'r plaid ar y papurau pleidleisio.

Etholiadau cyngorau plwyf a chymuned

Mewn etholiadau ar gyfer cyngorau plwyf a chymuned, gall pleidiau ac ymgeiswyr annibynnol, yn ôl disgrisiwn y Swyddog Canlyniadau, ddefnyddio disgrifiad nad yw wedi'i gofrestru gyda ni. Cyn belled nad yw'r disgrifiad yn hirach na chwe gair ac na ellir ei gymysgu â phlaid wleidyddol gofrestredig.

[Dewch o hyd i ganllawiau ar gyfer ymgeiswyr ac asiantiaid.](#)

Dewis eich marciau adnabod (enw, disgrifiadau ac arwyddluniau)

Cyn i chi ddechrau'r broses gwneud cais i gofrestru plaid newydd neu newid eich marciau adnabod, dylech feddwl yn ofalus am beth hoffech i'ch marciau adnabod fod. Efallai y bydd ein '[Proses ar gyfer cofrestru plaid wleidyddol](#)', sy'n amlinellu'r broses gwneud cais, yn ddefnyddiol.

Er mwyn eich helpu i wneud eich penderfyniad, dylech [chwilio drwy'r cofrestrau](#) er mwyn penderfynu a oes unrhyw farciau adnabod tebyg ar y gofrestr. Os yw'n debygol y bydd eich marciau adnabod arfaethedig yn golygu y bydd pleidleiswyr yn drysu rhyngddynt a marciau adnabod plaid gofrestredig arall, ni fyddwn yn eu cofrestru. Bydd chwilio drwy'r cofrestrau hefyd yn rhoi syniad da i chi ynghylch pa farciau adnabod sy'n bodloni'r profion statudol.

Dylech hefyd chwilio ar y rhynggrwyd i weld a oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau presennol sydd ag enw neu logo yr un fath, neu'n debyg i'r marciau adnabod rydych am wneud cais i'w cofrestru. Ni allwn gofrestru marc adnabod sy'n debygol o olygu y bydd pleidleisiwr yn cael ei gamarwain.

Dylai eich marciau adnabod sicrhau bod gan bleidleiswyr ddealltwriaeth a chydabyddiaeth glir o bwy ydych chi. Po fwyaf unigryw yw manylion adnabod eich plaid, y rhwyddaf ydyw i bleidleiswyr ddod o hyd i chi ar bapurau pleidleisio.

Sut rydym yn asesu marciau adnabod?

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddefnyddio profion mewn perthynas â phob cais i gofrestru enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau (marciau adnabod) pleidiau. Fel canllaw, ni allwn gofrestru unrhyw farc adnabod sy'n bodloni un o'r canlynol ym marn y Comisiwn:

- yn debygol o gamarwain pleidleiswyr ynghylch effaith eu pleidlais
- yr un peth â marc adnabod cofrestredig ac sydd eisoes yn ymddangos ar yr un gofrestr
- yr un peth â marc adnabod plaid sydd wedi dadgofrestru oedd ar yr un gofrestr, ac sydd wedi'i ddiogelu yn debygol o arwain at bleidleiswyr yn ei ddrysu gyda marc adnabod plaid arall sydd eisoes wedi cofrestru neu ddiogelu
- sy'n debygol o wrth-ddweud neu rwystro cyfarwyddiadau neu ganllawiau ar gyfer pleidleisio
- ei fod yn anlladus neu'n sarhaus
- yn cynnwys rhai geiriau a waherddir
- yn, neu'n cynnwys acronym neu dalfyriad nad yw'n hysbys na ddefnyddir yn gyffredin a ddim wedi ei sillafu allan
- yn cysylltu â deunydd ar-lein mewn unrhyw fodd neu'n cyfeirio at gynnwys ar-lein
- yn cynnwys cyfeiriad at enw person heblaw bod y person yn gysylltiedig uniongyrchol â'ch plaid
- arwyddlun sy'n cynnwys testun na ellir ei ddarllen ar y maint y mae'r arwyddlun yn ymddangos ar y papurau pleidleisio (2cm sgwâr)
- ei fod yn cynnwys mwy na chwe gair
- ddim mewn sgrïpt Rufeinig
- yn debygol o fod yn drosedd os caiff ei gyhoeddi

Wrth asesu cais, rydym yn ystyried sut y gall y marciau adnabod arfaethedig gael eu defnyddio ar bapurau pleidleisio cyn gwneud penderfyniad yn unol â'r profion statudol.

Rydym yn asesu sut mae'r enw, disgrifiadau ac arwyddluniau arfaethedig yn rhyngweithio â'i gilydd yn eu cyfanrwydd.

Byddwn hefyd yn ystyried y ffyrdd gwahanol y gellid eu defnyddio ar y papur pleidleisio mewn etholiadau gwahanol.

Os na fydd marc adnabod yn bodloni'r profion statudol, caiff ei wrthod.

Chi sy'n gyfrifol am benderfynu ar fanylion eich cais a sicrhau bod eich cais yn cydymffurfio â gofynion PPERA. Hyd nes y gwneir penderfyniad terfynol ar eich cais, ni allwn gadarnhau p'un a fydd yn llwyddiannus. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am ein rhesymau os byddwn yn gwrthod eich cais.

Beth yw ystyr 'yn debygol o gamarwain pleidleiswyr'?

Mae'r prawf hwn yn edrych ar b'un a fyddai marc adnabod plaid yn debygol o arwain pleidleisiwr i naill ai pleidleisio mewn ffordd nas bwriadwyd ganddo (e.e. dros blaid heblaw am eu dewis blaid) neu fel arall farcio'r papur pleidleisio mewn ffordd nas bwriadwyd ganddo.

Dylech chwilio ar y rhyngwrdd i weld a oes unrhyw grwpiau neu sefydliadau presennol sydd ag enw neu logo yr un fath, neu'n debyg i'r marciau adnabod rydych am wneud cais i'w cofrestru. Ni allwn gofrestru marc adnabod y mae'r Comisiwn o'r farn ei fod yn debygol o olygu y bydd pleidleisiwr yn credu ei fod yn pleidleisio dros sefydliad ar wahân i'r blaid neu sefydliad nad yw'n gysylltiedig â'r blaid.

Mae hefyd yn ofynnol i ni ystyried a fyddai marc adnabod yn mynd yn groes i gyfarwyddiadau neu ganllawiau ar gyfer pleidleisio (e.e. ticiwch yma). Byddwn yn gwrthod marc adnabod os byddwn o'r farn y byddai pleidleisiwr yn debygol o wneud camgymeriad ar y papur pleidleisio a fyddai'n annilysu ei bleidlais, er enghraifft drwy bleidleisio dros ormod o ymgeiswyr.

Sut ydym yn asesu p'un a bod rhywbeth yn debygol o 'ddrysu' pleidleiswyr?

Mae gofyn i ni sicrhau bod pleidleisiwr yn gallu gwahaniaethu rhwng marciau adnabod gwahanol bleidiau. Mae'r prawf yma'n edrych, yn ein barn ni, pe bai pleidleisiwr yn gallu drysu marc adnabod y blaid gyda marc adnabod plaid arall sydd eisoes wedi cofrestru.

Bydd ein hasesiad o p'un a bod marc adnabod yn ddryslyd fel arfer yn ystyried p'un a bod y marc adnabod yr un peth yn weledol (e.e. y geiriau 'stationary' neu 'stationery', delweddau tebyg o gychod) neu'n debyg yn ôl cyd-destun (e.e. 'Plaid y Dderwen' a 'Plaid Derwen').

Ar gyfer arwyddluniau byddwn yn ystyried p'un a bod yr elfennau sydd wedi'u dylunio a'r testun yn wahanol i farciau adnabod eraill.

Sut ydym yn asesu os yw rhywbeth yn 'anlladus' neu yn 'sarhaus'?

Rydym yn asesu pob cais fesul achos ond rydym yn debygol o wrthod marc adnabod (am ei fod yn anlladus neu'n sarhaus) os ydyw, yn ein barn ni, er enghraifft:

- yn cynnwys iaith neu derminoleg sarhaus
- yn gysylltiedig â rhywbeth y derbynnir yn gyffredinol ei fod yn sarhaus â grŵp perthnasol o bobl

Wrth asesu a yw marc adnabod yn alladus neu'n sarhaus rydym yn ystyried bod yn rhaid i bleidiau allu mynegi eu syniadau gwleidyddol ochr yn ochr â'r ffaith bod yn rhaid i bleidleisiwr ddefnyddio papur pleidleisio er mwyn arfer ei hawl i bleidleisio. Byddwn hefyd yn ystyried cyd-destun a'r amgylchiadau lle gellir adnabod marc adnabod.

Geiriau na ellir eu defnyddio mewn marciau adnabod

Mae'r gyfraith yn nodi rhai geiriau na ellir eu defnyddio ar bapur pleidleisio. Hefyd, ni ellir defnyddio rhai geiriau ar bapurau pleidleisio heb iddynt gael eu goleddfu gan eiriau eraill. Mae'r gyfraith yn gymwys i fersiynau lluosog neu unigol geiriau a waherddir, yn ogystal ag ysgrifennu'r geiriau gwaharddedig mewn iaith arall.

Rhennir y geiriau hyn yn bedwar categori.

Y geiriau gwaharddedig yng Nghategori 1 yw:
Dug, Duges, Ei Mawrhydi, Ei Fawrhydi, Brenin, Tywysog, Tywysoges, Brenhines, Brenhinol, Brenhiniaeth

Ni ellir defnyddio'r geiriau hyn mewn marciau adnabod ar eu pen eu hunain. Dim ond mewn perthynas ag enw lle, sefydliad neu ardal llywodraeth leol y gellir defnyddio'r geiriau yng nghategori 1.

Er enghraifft, ni allwch ddefnyddio '**Y Blaid Fythol Frenhinol**' gan nad yw '**Brenhinol**' yn cael ei ddefnyddio gydag enw lle, sefydliad nac ardal llywodraeth leol.

Gallech ddefnyddio '**Royal Tunbridge Wells**' gan fod '**Royal**' yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â lle.

Y geiriau gwaharddedig yng Nghategori 2 yw:
Prydain, Prydeinig, Lloegr, Seisnig, Cenedlaethol, Yr Alban, Sgotaid, Albanaidd, Y Deyrnas Unedig, Cymru, Cymreig, Gibraltar, Gibraltaraid, Rhanbarth cyfunol

Ni ellir defnyddio'r geiriau hyn mewn marciau adnabod ar eu pen eu hunain. Dim ond os byddwch yn eu defnyddio gyda gair neu ymadrodd arall heblaw am enw neu ddisgrifiad plaid sydd eisoes wedi'i chofrestru yn y rhan berthnasol o'r DU y gallwch ddefnyddio geiriau categori 2.

Er enghraifft, ni allwch gofrestru '**Un Blaid Fawr Gymreig**' os yw '**Un Blaid Fawr**' wedi'i chofrestru eisoes gan fod '**Cymreig**' yn cael ei ddefnyddio gydag enw plaid sydd wedi'i chofrestru eisoes.

Mae'r rheolau ar gyfer plaid a gofrestrir yn Gibraltar ychydig yn wahanol - ffoniwch ni am ragor o wybodaeth.

Y geiriau gwaharddedig yng Nghategori 3 yw: Annibynnol, Swyddogol, Answyddogol

Ni ellir defnyddio'r geiriau hyn mewn marciau adnabod ar eu pen eu hunain. Dim ond os caiff y gair ei ddefnyddio gyda gair neu ymadrodd arall y gallwch ddefnyddio geiriau categori 3, ond nid:.

- enw neu ddisgrifiad cofrestredig sy'n bodoli eisoes; neu
- gyda'r gair 'plaid' yn unig; neu
- gair categori 3 arall

Er enghraifft, ni allwch ddefnyddio **'Plaid Annibynnol Atal y Ffordd Osgoi'** os oedd **'Plaid Atal y Ffordd Osgoi'** wedi'i chofrestru eisoes gan fod 'Annibynnol' yn cael ei ddefnyddio gydag enw plaid sydd wedi'i chofrestru eisoes.

Ni allwch gofrestru **'Y Blaid Annibynnol'** ychwaith.

Y geiriau gwaharddedig yng Nghategori 4 yw: Trethdalwyr, Trigolion, Tenantiaid

Ni ellir defnyddio'r geiriau hyn mewn marciau adnabod ar eu pen eu hunain. Dim ond mewn perthynas ag enw ardal llywodraeth leol neu ardal ddaearyddol y gallwch ddefnyddio'r geiriau yng nghategori 4.

Er enghraifft gallwch gofrestru **'Plaid Trigolion Efrog'** gan fod **'Trigolion'** yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas ag Efrog, sy'n ardal ddaearyddol.

Ni allwch gofrestru **'Grŵp Gweithredu Trigolion'** na **'Trigolion Unedig'** gan nad yw **'Trigolion'** yn cael ei ddefnyddio gydag enw ardal llywodraeth leol neu ardal ddaearyddol.

Pa ymadroddion na allaf eu defnyddio?

Mae'r gyfraith yn nodi ymadroddion na ellid eu defnyddio ar bapurau pleidleisio. Ni allwch gofrestru'r ymadrodd **'Dim o'r Uchod'** fel marc adnabod, ar ei ben ei hun neu gyda geiriau neu ymadroddion eraill. Mae marciau adnabod tebyg i'r ymadrodd hyn hefyd yn debygol o gael eu gwrthod fel rhai camarweiniol.

A ellir defnyddio acronymau a thalfyriadau?

Os nad yw acronym neu dalfyriad yn adnabyddus neu'n cael ei ddefnyddio'n eang mewn iaith bob dydd, ni chaniateir iddo gael ei ddefnyddio fel marc adnabod eich plaid fel arfer. Ymhlith yr enghreifftiau o acronymau adnabyddus a ddefnyddir mewn iaith gyffredin mae 'DU', 'UE' a 'GIG'.

Byddwn yn ystyried rhai acronymau adnabyddus a ddefnyddir yn eang fel y rhai a nodir uchod fel un gair.

Os nad yw acronym, ym marn y Comisiwn, yn adnabyddus ac yn cael ei ddefnyddio'n eang, rhaid i'r geiriau y bwriedir iddo eu cynrychioli gael eu sillafu fesul llythyren a'u hysgrifennu mewn llythrennau bach. Gellir ychwanegu'r acronym nesaf ato mewn cromfachau - a bydd pob gair, gan gynnwys yr acronym yn cyfrif tuag at y cyfyngiad cyffredinol o chwe gair.

Gall y geiriau a ddefnyddir mewn marc adnabod plaid ddechrau gyda phrif lythyren.

A ellir defnyddio rhifau?

Os yw marc adnabod eich plaid yn dechrau neu'n gorffen gyda rhif, nid ydym yn debygol o gymeradwyo'r broses o'i gofrestru ar y ffurf honno. Yn hytrach, byddwn yn gofyn i chi ei sillafu fel gair yn hytrach na defnyddio rhif.

Y rheswm am hyn yw bod gofyn i bleidleiswyr ddefnyddio rhifau i raddio ymgeiswyr yn nhrefn eu dewis mewn rhai etholiadau. Mae risg y gallai marciau adnabod pleidiau sy'n dechrau neu'n gorffen gyda rhif fod yn gamarweiniol gyda'r

rhifau ar y papur pleidleisio a'r cyfarwyddiadau ar sut i bleidleisio.

Gallwn gofrestru marc adnabod plaid sy'n defnyddio rhifau yng nghanol yr enw, yn dibynnu ar sut y cânt eu defnyddio a ph'un a yw'n debygol o gamarwain dryswch i bleidleiswyr.

A ellir defnyddio dolenni i ddeunydd ar-lein?

Gall eich plaid ddefnyddio gwefan neu gyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu gyda phleidleiswyr. Fodd bynnag, ni ddylai dolenni i wefannau neu gyfryngau cymdeithasol (e.e. hashnodau Twitter neu dudalennau Facebook) gael eu defnyddio fel rhan o'ch marciau adnabod.

Wrth asesu eich marc adnabod, rhaid i ni benderfynu a yw'n bodloni'r profion statudol. Os oes cysylltiad rhwng eich marc adnabod a deunydd ar-lein, rydym yn debygol o'i wrthod gan na allwn asesu deunydd sy'n debygol o newid dros amser yn erbyn y profion statudol.

A ellir defnyddio enw unigolyn?

Er ein bod yn ystyried pob achos yn ôl ei deilyngdod, ni fyddwn fel arfer yn derbyn y defnydd o enw unigolyn mewn marc adnabod.

Mae hyn gan fod cyfarwyddiadau ar y papur pleidleisio yn aml yn nodi bod y papur pleidleisio ar gyfer ethol ymgeisydd i etholaeth/ward benodol neu ardal arall. Os yw enw'r person, heblaw un o'r ymeyswyr, yn ymddangos ar y papurau pleidleisio am unrhyw ardal mae risg o wrth-ddweud y cyfarwyddyd i bleidleisio.

Mae gofyn i ni wrthod unrhyw marc adnabod sy'n gwrth-ddweud, neu'n rhwyystro dealltwriaeth etholwr o'r cyfarwyddiadau i bleidleisio a roddir ar y papur pleidleisio neu rywle arall.

Pa ieithoedd y gallaf eu defnyddio ar gyfer marciau adnabod pleidiau?

Gallwch wneud cais i ddefnyddio iaith ar wahân i Saesneg yn y marciau adnabod i'w defnyddio ar bapurau pleidleisio.

Er enghraifft, efallai y byddwch am gofrestru marc adnabod eich plaid yn Gymraeg a Saesneg (ar gyfer cofrestr Prydain Fawr) neu yn Saesneg a Gwyddelig (ar gyfer cofrestr Gogledd Iwerddon).

Yng Nghymru, os ydych wedi cofrestru marc adnabod eich plaid yn Gymraeg a Saesneg, gallwch ddewis arddangos y ddau ohonynt ar bapurau pleidleisio.

Ar gyfer etholiadau mewn rhannau eraill o'r DU, dim ond mewn un iaith y gall enw'r blaid ymddangos ar y papur pleidleisio. Bydd y cyfieithiad Saesneg o'r enw yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus.

Bydd hyn yn golygu y gallwch ddewis yr iaith fwyaf priodol ar gyfer marc adnabod eich plaid i ymddangos ar bapurau pleidleisio.

Ni all y marc adnabod arfaethedig fod yn hirach na chwe gair mewn unrhyw iaith.

Os ydych am gofrestru marc adnabod plaid mewn iaith ar wahân i Saesneg, rhaid i chi ddarparu cyfieithiad Saesneg cywir fel rhan o'ch cais. Caiff pob cyfieithiad ei ddilysu ar gyfer cywirde. Os yw eich cyfieithiad yn anghywir byddwn yn gofyn i chi ei newid ac os oes cyfieithiad gwell neu mwy cywir, byddwn yn gofyn eich bod yn newid eich cyfieithiad.

Rhaid i enw plaid ac unrhyw ddisgrifiadau gael eu nodi mewn sgrïpt Rufeinig, hyd yn oed os cânt eu cofrestru mewn iaith ar wahân i Saesneg. Mae'n debygol o gael ei dderbyn os gallwch ddefnyddio bysellfwrdd o'r DU i gynhyrchu'r marc adnabod heb ddefnyddio marciau arbennig. Cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr o'r hyn y gellir ei dderbyn.

Materion i'w hystyried wrth ddewis arwyddlun

Beth yw arwyddlun?

Dylai arwyddlun gynnwys un neu fwy o'r elfennau cyffredin canlynol:

- elfen wedi'i dylunio
- bathodyn neu ddyfais unigryw
- gwrthrych, symbol neu gynrychiolaeth weledol

Fel arfer, rydym yn anhebygol o gofrestru arwyddlun sy'n cynnwys testun yn unig.

Rhaid i chi ystyried y canlynol wrth ddylunio eich arwyddlun:







- rhaid i chi ddangos eich arwyddlun mewn du a gwyn
- rhaid i chi osgoi arwyddluniau sydd yr un fath ag enwau neu ddisgrifiadau pleidiau eraill, rydym yn debygol o wrthod arwyddluniau sy'n debyg i enw neu ddisgrifiadau plaid arall
- rhaid i chi beidio â defnyddio croesau neu diciau
- rhaid i chi ddylunio arwyddlun sy'n cydymffurfio â'r pwyntiau a nodir ar dudalen 11 y ddogfen hon

Ystyriaethau ymarferol wrth ddylunio eich arwyddlun

Wrth ddylunio eich arwyddlun, dylech ystyried y canlynol:

- Bod unrhyw destun yn hawdd ei ddarllen pan gaiff maint eich arwyddlun ei newid i 2cm sgwâr
- P'un a yw'r arwyddlun yn gwneud defnydd da o'r gofod sydd ar gael. Yn aml, ni ellir darllen arwyddluniau hir a thenau ar ffurf baneri, fel y dangosir yn yr enghraifft ar y dudalen nesaf

Enghreifftiau o'r materion uchod:

Mater ac enghraifft	Sut mae'n ymddangos ar bapurau pleidleisio
<p>Dyma enghraifft o arwyddlun hir a llydan</p> 	
<p>Dyma enghraifft o arwyddlun na ellir ei ddarllen (testun yn rhy fach)</p> 	
<p>Dyma enghraifft o arwyddlun na ellir ei ddarllen (aneglur)</p> 	

Beth fydd maint arwyddlun ar y papur pleidleisio?

Y gofod a ganiateir ar gyfer arwyddlun a argreffir ar bapur pleidleisio yw 2cm sgwâr. Wrth adolygu eich arwyddluniau arfaethedig, byddwn yn ystyried sut y byddant yn ymddangos pan gânt eu lleihau i faint papur pleidleisio.

Y maint lleiaf sy'n rhaid i destun fod mewn arwyddluniau

Fel bod pleidleiswyr yn gallu darllen unrhyw eiriau mewn arwyddluniau, mae gofyn bod maint lleiaf ar gyfer testun i'w ddefnyddio mewn arwyddluniau. Os nad yw arwyddlun yn bodloni'r safonau hyn, mae'n debygol o gael ei wrthod.

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gwirio bod y llythyren 'x' yn y font a ddewisir yn yr arwyddlun, ddim yn llai na 1.2mm. Mae'r tabl isod yn dangos maint lleiaf testun mewn ffontiau cyfarwydd.

Esiamplau o faint lleiaf testun mewn ffontiau cyfarwydd

Math o ffont a maint	Gwir faint y testun
Times New Roman 7.5	x mewn Ffont Times New Roman 7.5
Arial 6.5	x mewn Ffont Arial 6.5
Verdana 6.5	x mewn Ffont Verdana 6.5

Yn ein hasesiad o ran p'un a bod maint testun yn ddarllenadwy, byddwn hefyd yn ystyried sut caiff y testun ei ddangos yn yr arwyddlun, sut caiff ei fformatio, yn ogystal ag ansawdd cydraniad yr arwyddlun fel cyfanrwydd.

Os nad yw eich arwyddlun yn bodloni'r safonau hyn, mae'n debygol y caiff ei wrthod.

Darparu arwyddluniau du a gwyn

Rhaid i arwyddluniau sy'n ymddangos ar y gofrestr a phapurau pleidleisio fod mewn du a gwyn. Rhaid i chi roi fersiwn du a gwyn o'ch arwyddlun i ni.

Caiff unrhyw arwyddlun a gyflwynir mewn lliw ei wrthod a bydd angen i chi ei ailgyflwyno mewn du a gwyn.

Cyflwyno eich arwyddluniau

Rhaid i'r arwyddluniau a gyflwynwch fod mewn du a gwyn a dylent fod:

- yn 5cm sgwâr
- o ansawdd uchel - o leiaf 300dpi neu uwch
- mewn fformat 'jpeg' neu 'gif'

Beth os nad oes gennyf arwyddluniau mewn fformat electronig?

Os nad oes gennyf arwyddluniau mewn fformat electronig, gallwch anfon y gwaith celf gwreiddiol atom. Er enghraifft, efallai eich bod wedi tynnu llun o'ch arwyddluniau â llaw, ac nad oes gennyf gyfrifiadur i'w sganio eich hun.

Rhaid i'r arwyddluniau yr ydych yn eu darparu fod mewn du a gwyn (monocrom) a rhaid iddynt:

- ffitio i mewn i ffrâm 5cm sgwâr (peidiwch â rhoi ffrâm o amgylch yr arwyddluniau, onid yw'n rhan o'r dyluniad)
- bod o ansawdd uchel, fel bod pob arwyddlun yn glir

Byddwn yn sganio eich arwyddluniau drosoch (mewn du a gwyn) er mwyn iddynt allu cael eu defnyddio ar bapurau pleidleisio a'u harddangos yn gywir ar y gofrestr. Os yw eich arwyddluniau yn fwy na 5cm sgwâr, byddwn yn lleihau eu maint pan fyddwn yn eu sganio.

Ni allwn warantu ansawdd yr arwyddluniau hynny y mae'n rhaid newid eu maint neu eu sganio.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn darparu eich arwyddluniau drwy CPE ar-lein.

Diogelu enwau, disgrifiadau ac arwyddluniau

Gall pleidiau ddewis cofrestru ar gofrestrau Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon, neu'r ddwy. Ni allwn gofrestru marc adnabod sydd yr un fath â marc adnabod plaid arall yn yr un gofrestr (Prydain Fawr neu Ogledd Iwerddon).

Ym Mhrydain Fawr, gall pleidiau ddewis pa ran neu rannau o Brydain Fawr y maent am gofrestru ynnddi neu ynddynt (Cymru, Lloegr a'r Alban). Ni allwn gofrestru marc adnabod y mae'r Comisiwn o'r farn ei bod yn debygol y bydd pleidleiswyr yn drysu rhyngddo a marc adnabod plaid arall sydd wedi'i chofrestru yn yr un rhan o'r gofrestr.

Mae'r un prawf yn gymwys i gofrestr Gogledd Iwerddon yn gyffredinol.

Ar ôl i blaid ddadgofrestru, caiff ei nodau adnabod eu diogelu am gyfnod penodol.

Os yw'r blaid wedi'i dadgofrestru'n wirfoddol a bod ei hincwm/gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol y blaid cyn dadgofrestru yn £25,000 neu fwy, yna caiff ei marciau adnabod eu diogelu hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y blaid ar ôl y flwyddyn y cafodd ei dadgofrestru. Ym mhob achos arall, caiff marciau adnabod y blaid eu diogelu hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol y cafodd ei dadgofrestru. Nid yw'r broses gofrestru yn diogelu eich marciau adnabod rhag cael eu defnyddio gan bobl eraill mewn mannau eraill ar wahân i bapur pleidleisio. Er enghraifft, nid yw'n atal pobl eraill rhag defnyddio eich marciau adnabod yn eu deunydd ymgyrchu os dymunant wneud hynny.

Os ydych am atal pobl rhag gwneud hyn, dylech geisio cyngor cyfreithiol annibynnol ar ffyrdd eraill o ddiogelu eich hawliau eiddo deallusol.

Hawlfraint a nodau masnach

Nid ydym yn archwilio i weld a oes achos o dorri hawliau eiddo deallusol wrth gofrestru marciau adnabod plaid. Felly, cyn i chi wneud cais, dylech sicrhau nad yw eich marciau adnabod yn torri unrhyw gyfreithiau hawlfraint a nodau masnach.

Os byddwch yn cofrestru marciau adnabod eich plaid ac yna'n darganfod eu bod yn torri cyfreithiau hawlfraint neu nodau masnach, gallech fod yn destun her cyfreithiol gan y perchennog cofrestredig.

I gael rhagor o wybodaeth, [ewch i wefan Swyddfa Eiddo Deallusol y Llywodraeth](#).

Ble y gallaf gael rhagor o gyngor?

Gallwch gael mwy o wybodaeth yn y dogfennau canllaw yr ydym wedi eu hargymell yn y ddogfen hon, neu [gallwch weld ein hystod lawn o ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan.](#)

Gallwch gysylltu â ni ar y rhif ffôn isod neu drwy e-bost ar y cyfeiriad isod. Ffoniwch ni ar 0333 103 1929

Neu e-bostiwch

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: partyreg@electoralcommission.org.uk.